

Cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mawrth 13^{eg} Rhagfyr yn Swyddfa Safle Wylfa Newydd (ystafelloedd Cemlyn).

Yn Bresennol (sefydliadau yn nhrefn yr wyddor):

Enw	Sefydliad
John Evans	Alun Griffiths
Gwyndaf Jones	Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn
Margaret Thomas	Cyngor ar Bopeth
Gwilym Williams	Clough & Co.
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Donald White	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Wyn Thomas	Cyfarwyddwr Grŵp Llandrillo Menai / Is-gadeirydd Grŵp Cyswllt y Prosiect
Robin Beckman	Pennaeth Rhaglen Ynni a'r Sector Niwclear, Llywodraeth Cymru
Neville Evans	Cyngor Sir Ynys Môn
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuencid Ynys Môn
Gwilym O Jones	Aelod ward Llifton ar Gyngor Sir Ynys Môn
Medwyn Williams	Magnox
Lynsey Williams	Medrwn Môn
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dennis Evans	Cadeirydd Grŵp Cyswllt y Prosiect
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Simon Wall	Cynrychiolwyr ar ran yr Aelod Cynulliad Nathan Gill
Andrew Haigh	Cynrychiolwyr ar ran yr Aelod Cynulliad Nathan Gill
John Griffith	Aelod ward Talybolion ar Gyngor Sir Ynys Môn
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Richard Owain Jones	Aelod ward Twrcelyn ar Gyngor Sir Ynys Môn
Y cyhoedd	
John Jones	
John Idris Jones	
Peter Jones	
Clare Eno	

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad
Myrddin Wyn Owens	Cyngor Tref Amlwch
Gareth Winston Roberts OBE	Cyngor Tref Amlwch
Phil Scott	Partneriaeth Twristiaeth Ynys Môn
Yr Athro David Shepherd	Prifysgol Bangor
Andy Billcliff	CBI Cymru

Dr Gwynne Jones	Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn
Rebecca Williams	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Heidi Williams	FUW (Undeb Amaethwyr Cymru)
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Ynys Môn
Lowri Joyce	Hitachi Nuclear Energy Europe
Derek Owen	Cynghorau cymuned Llanbadrig/ Llanfachraeth/ Bodffordd
Mrs Carli Evans-Thau	Clerc Cyngor Cymuned Llanelian / Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cynghorydd Richard Dew	Aelod ward Llifton ar Gyngor Sir Ynys Môn
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Hywel Williams AS	Aelod Seneddol Arfon
Albert Owen, AS	Aelod Seneddol Ynys Môn
Liz Saville Roberts AS	Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd
Derek Gadsdon	Aelod o'r Cyhoedd
Michael Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Alli Hunt	Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Aled Morris Jones	Aelod ward Twrcelyn ar Gyngor Sir Ynys Môn
Janet Finch Saunders AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Conwy
Siân Gwenllian AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Arfon
Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Dwyfor Meirionnydd
Rhun ap Iorwerth AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ynys Môn
Mark Isherwood AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gogledd Cymru
Michelle Brown AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gogledd Cymru
Llyr Huws Griffiths AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gogledd Cymru
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ag ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac ewch i <http://www.horizonnuclearpower.com/hafan>

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar <http://www.wylfaplq.com/cymraeg/>

1. Croeso, cofnodion cyfarfod Hydref 2016 a materion yn codi – Dennis Evans, Cadeirydd

- Croesawodd Dennis Evans (DE) bawb i'r cyfarfod am 5:30pm a chyflwynodd yr unigolion a fyddai'n rhoi cyflwyniadau yn ystod y cyfarfod.

- Gofynnodd **DE** i Grŵp Cyswllt y Prosiect adolygu cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect a gynhaliwyd ar 25 Hydref:
 - Dywedodd Sarah Andrews (**SA**) fod y cofnodion yn nodi ei bod wedi ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol, ond ei bod hi yn y cyfarfod mewn gwirionedd. Nodwyd hyn.
 - Ychwanegodd Sasha Davies (**SD**) bwynt at y cofnodion; sef bod Charlie Tasker (**CT**) wedi cael ei benodi i swydd newydd gyda Horizon [Pennaeth Adeiladu] ac mae wedi gweithio gyda'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol ers nifer o flynyddoedd.
 - Dywedodd **DE** fod Kieran Somers (**KS**) wedi egluro yng nghyfarfod mis Hydref Grŵp Cyswllt y Prosiect bod yr amcangyfrif o nifer y swyddi a fyddai'n cael eu creu gan y prosiect wedi cynyddu 1000 yn nogfennau PAC2 rhag ofn i'r ffigur fynd dros y terfyn gwreiddiol.
- Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o gyfarfod mis Hydref 2016.
- Nododd **DE** nad oedd cynrychiolydd o'r National Grid yn bresennol ar gyfer y cyfarfod hwn, fodd bynnag, byddai ymgynghoriad y National Grid yn cau ar 16 Ionawr. Awgrymodd y Cadeirydd os oedd gan aelodau sylwadau nad oeddent eisoes wedi cyflwyno i'r ymgynghoriad yn dylent wneud hynny.

2. Cyflwyniad a'r cynnydd diweddaraf ar Wylfa Newydd – Sasha Davies, Pennaeth Datblygu Strategol Cymru, Pŵer Niwclear Horizon

- Cyn cyflwyniad **SD**, rhoddodd Daron Hodges (**DH**) neges ynglŷn â diogelwch. Mae'r cwmni wedi cyflwyno'r arfer o wneud hyn er mwyn gwreiddio diwylliant newydd o ymwybyddiaeth o ddiogelwch. Roedd y rhan ar ddiogelwch yn ymwneud ag addurniadau trydanol, er mwyn atal tân dros gyfnod y Nadolig, hynny yw y dylai pawb fod yn ofalus wrth ddefnyddio addurniadau sydd wedi cael eu storio ers y llynedd.
- Cyfeiriodd **SD** at waith parhaus Horizon yn annog y gymuned i gymryd mwy o ran ym mhrosiect Wylfa Newydd. Nododd **SD** fod tîm bach o swyddogion cynnwys y gymuned, dan arweiniad Delyth Owen (Swyddog Cynnwys y Gymuned Horizon) yn coladu gwybodaeth a ddarparwyd gan bobl leol yn eu cymunedau perthnasol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at Medrwn Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon a byddai, pan fo hynny'n briodol, yn cael ei hystyried yn y gwaith o lunio'r mesurau lliniaru y cytunir arnynt gyda Llywodraeth Leol. Dywedodd **SD** fod y Swyddogion Cynnwys y Gymuned ar gael ar ddiwedd y cyfarfod pe bai unrhyw un yn dymuno siarad â nhw.
- Diolchodd **SD** i bawb a fu'n rhan o ymgynghoriad PAC2. Cafwyd llawer o bwyntiau adeiladol o ganlyniad i'r ymgynghoriad a byddai rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn bwydo yn ôl ar agweddau allweddol sydd i'w gweithredu.

- Roedd y gwaith o ailstrwythuro staff Horizon wedi'i gwblhau. Roedd aelodau newydd o staff wedi'u penodi a chafodd Rhodri Owen ei benodi'n Rheolwr Masnachol newydd, gan weithio yn swyddfa safle Wylfa Newydd.
- Siaradodd **SD** am y busnesau a'r elusennau lleol a gefnogwyd eleni, gan restru enghreifftiau gwahanol. Eglurodd **SD** fod hyn yn dros £100k gyda'i gilydd. Roedd Horizon hefyd wedi noddi categori Cymuned Gwobrau Busnes y Daily Post yn ddiweddar.
- Eglurodd **SD** y byddai'r ail ffenestr ar gyfer derbyn ceisiadau i'r cynllun Prentisiaeth Dechnegol yn cael ei lansio yn gynnar yn 2017. Roedd Horizon hefyd yn parhau i ymestyn ei raglen addysg gydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, gan ganolbwyntio ar bynciau STEM; roedd rhagor o waith gydag ysgolion hefyd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cefnogi 'sesiynau dewisiadau/gyrfaoedd'.
- Roedd cylchlythyr Horizon newydd gael ei gyhoeddi, ac roedd copi ar gael ar gyfer pawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

3. Diweddariad am gynnydd y safle – Daron Hodges, Rheolwr Safle Wylfa Newydd

- Eglurodd **DH** fod y safle nawr yn cael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda llai o waith yn cael ei wneud yn ystod y gaeaf oherwydd amodau tywydd salach. Bydd ffordd Bae Cemlyn yn cael ei chau ar gyfer gwaith yn y dyfodol ac felly roedd Ffordd Nanner yn cael ei gwella er mwyn derbyn y traffig a fyddai'n cael ei ddargyfeirio. Bydd y darn hwn o waith yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2017. Roedd y gwelliannau'n cynnwys adeiladu manau pasio, wyneb newydd ar y ffordd, draeniau a gwrychoedd newydd, a oedd i gyd yn cyrraedd y rheoliadau gofynnol. Ni fyddai'r cwmni lleol Jones Bros yn gweithio ar y ffordd dros gyfnod y Nadolig.
- Eglurodd **DH** wrth aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect fod busnesau ar hyd Ffordd Nanner ar agor fel arfer, a bod timau Jones Bros a Horizon wedi codi arwyddion yn egluro hyn hefyd – gan gydnabod pryderon lleol. Yn yr un modd, roeddent wedi gweithio gyda phobl a oedd yn byw ar hyd y ffordd er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o amhariad. Dywedodd **DH** os oedd unrhyw un yn cael unrhyw anawsterau y dylent gysylltu ag ef yn uniongyrchol.
- Eglurodd **DH** y gofynnwyd i gwmnïau lleol wneud y gwaith yn y contract. Dywedodd hefyd fod un cebl pŵer wedi cael ei symud a bod ail yn cael ei baratoi, a fyddai'n cael ei wneud yn mis Mawrth 2017, fel rhan o'r gwaith. Roedd yr hen geblau i gyd wedi cael eu symud. Er bod elfen o'r prosiect hwn yn cael ei rheoli gan Scottish Power, roeddent yn defnyddio igontractwyr lleol.
- Dywedodd **DH** fod nifer o arolygon ar waith, ee archaeoleg.
- Dywedodd **DH** fod nifer y bobl a oedd ar y safle ar hyn o bryd tua 100 ac, ar ôl y gaeaf, ei bod hi'n debyg y byddai'n prysuro yno. Tynnodd sylw at nifer o brosiectau a oedd ar y gweill,

gan gynnwys y gwaith cefndirol ar gyfer y ceisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref fel paratoi a chlririo'r safle yn ogystal â gwelliannau a newidiadau i'r A5025. Dywedodd fod angen i'r elfennau hyn o'r Prosiect symud ymlaen er mwyn bod yn barod ar gyfer yr adeiladu llawn.

- Dangosodd **SD** luniau ar y sgrin o'r prentisiaid diweddaraf a gyflogwyd ac a hyfforddwyd ar y cyd â Choleg Grŵp Llandrillo Menai, a oedd wedi cael buddsoddiad gan Horizon ar gyfer hyfforddiant a seilwaith. Roedd y berthynas waith â'r coleg yn un dda a phwysleisiodd Sasha Davies fod potensial gwych i Langefni, i'r ynys ac i'r sector ynni.
- Cyfeiriodd **SD** at ymgynghoriad PAC2, a fu'n ddarn mawr o waith; dangoswyd lluniau ar y sleid. Diolchodd **SD** unwaith eto i bawb a oedd wedi ymateb.
- Dywedodd **SD** fod gwaith da yn mynd rhagddo o ran amlygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi Wylfa Newydd. Roedd Horizon yn gweithio gyda Choleg Grŵp Llandrillo Menai, Cyngor Sir Ynys Môn, Canolfan Byd Gwaith, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru ar gysyniad Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth ar gyfer Wylfa Newydd.
- Yn olaf, dangosodd **SD** fideo o'r llwyfan ymchwiliadau morol ym Mhorth y Pistyll, un o gampau peirianeg ac ymchwiliadau mwyaf y safle yn 2016.

Cwestiynau:

- Diolchodd y Cynghorydd Gwilym Jones (**GJ**) i **SD** am y cyflwyniad a holodd a fyddai'r prentisiaid a gyflogir yn yr orsaf bŵer yn cael eu cadw yno i weithio tan 2020. Petai unrhyw oedi gyda chynllunio ac ati, beth fyddai'r broses ar gyfer y bobl ifanc hyn?
 - Atebodd **SD** fod Horizon yn cynnal trafodaethau gyda'u cadwyn gyflenwi. Petai problem gyda'r amserlen, byddai'r prentisiaid yn gallu parhau i gefnogi'r prosiect yn rhywle arall. Roedd gan Horizon gysylltiadau da ar gyfer cynlluniau wrth gefn o'r fath ac roedd y mater wedi cael ei gynnwys yn eu hasesiad risg. Serch hynny, roedd Horizon eisiau cadw'r prentisiaid gan fod y cwmni wedi buddsoddi ynddynt.
- Holodd Medwyn Williams (**MW**), Magnox, faint o bersonél yr amcangyfrifir a fyddai ar y safle ar ôl cyfnod tawelach y gaeaf.
 - Atebodd **DH** na fyddai disgwyl cael mwy na 300 o bobl ar y safle; gyda'r logisteg mewn lle i gefnogi nifer y staff ar unrhyw un adeg ee arlwy a thoiledau, a fyddai'n cael eu prynu gan gwmnïau lleol.
- Holodd John Idris Jones (**JIJ**) am fanylion y rheini a oedd ar leoliadau i raddedigion yn Horizon, a phwysleisiodd bwysigrwydd hyrwyddo'r cyfleoedd a oedd ar gael mewn ysgolion uwchradd.
 - Atebodd Sasha Davies (**SD**) fod graddedigion mewn lle ac y byddai'r cwmni yn ystyried lleoliadau newydd i raddedigion y flwyddyn ganlynol yn ogystal â bwrsariau i fyfyrwyr prifysgol a fyddai'n cael eu cyflogi ar ôl iddynt raddio. Yng nghyswllt ysgolion uwchradd, roedd Horizon yn fodlon ymweld ag ysgolion ac

mae ganddo raglen ymgysylltu ag ysgolion yn barod. Byddai cynlluniau'n cynnwys ffeiriau gyrfaoedd er enghraifft. Ar ben hynny, roedd Horizon ac athrawon prifysgol wedi bod yn gweithio eleni gyda phenaethiaid adrannau ffiseg ysgolion uwchradd ar draws Gogledd Cymru; roedd yr adborth yn dda iawn. Awgrymodd Sasha Davies y gellid cynnwys sgwrs am addysg a sgiliau yn un o gyfarfodydd Grŵp Cyswllt y Prosiect yn y dyfodol.

- Ychwanegodd **JJJ** ei bod hi'n bwysig iawn, yng nghyswllt pobl ifanc, bod ysgolion yn chwarae rhan hefyd ac awgrymodd fod Horizon yn holi beth oedd y cyngor sir yn ei wneud i ddangos i'r bobl ifanc y lluo o gyfleoedd sydd ar gael.
- Gofynnodd y Cadeirydd i Gwyn Jones (**GJ**) y prif swyddog cynllunio pa fath o amserlen y gellid ei disgwyl o ran y ceisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.
 - Atebodd **GJ** fod nifer o geisiadau'n dod i law ar hyn o bryd, ac felly bod llawer i fynd drwyddynt a dywedodd y dylai'r trafodaethau ddechrau cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso'r broses. Byddai nifer o geisiadau'n cynnwys datganiadau amgylcheddol, sy'n golygu bod y ffenestr waith yn un heriol iawn. Ychwanegodd y Cadeirydd y gallai pob ochr ar ryw adeg fod yn disgwyl am adborth gan y llall, a allai arafu materion, ac y dylid osgoi hyn.
- Ailadroddodd **JJJ** bwysigrwydd gweithio gydag ysgolion, nid yn unig ar gyfer sgiliau gwyddonol, ond ar gyfer diwydiannau cefnogol, fel arlwyo.
 - Atebodd **SD** fod trafodaethau'n parhau ar raddfa ehangach o lawer na phynciau STEM, fel gweithwyr gofal a rheolwyr busnes/prosiectau, arlwyo er mwyn ymateb i anghenion helaeth y prosiect. Ychwanegodd Daron Hodges ei fod yn mynd i nifer o nosweithiau gyrfaoedd mewn ysgolion i siarad am swyddi niwclear posibl yn ogystal â'r gwasanaethau cefnogol ar yr ynys. Roedd nifer o wasanaethau a busnesau cefnogol eraill hefyd yn mynd i'r un nosweithiau gyrfaoedd, gan dargedu dysgwyr a oedd yn gwneud eu dewisiadau yn ogystal â'r rheini a oedd yn hŷn. Roedd yr ymweliadau hyn yn digwydd yn rheolaidd ac roedd apwyntiadau eisoes wedi cael eu trefnu ar gyfer digwyddiadau yn gynnar yn 2017.
- Gofynnodd y Cyngorydd Richard Jones (**RJ**) i Horizon ymchwilio i'r mater o ddŵr halogedig yng Nghemaes dros gyfnod tawelach y gaeaf.
 - Atebodd Iwan Williams (**IW**) o Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr asiantaeth yn gwybod am y broblem a bod cyfarfodydd cyhoeddus wedi cael eu cynnal yng Nghemaes ynghylch y mater. Roedd yn cydnabod bod hwn yn fater cymhleth ac nad oedd modd rhoi'r bai ar un sefydliad nac unigolyn, a bod angen dod o hyd i'r achos. Gofynnodd y Cadeirydd ai Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn gyfrifol am reoli, ac atebodd **IW** ei fod yn gyfrifoldeb i nifer o sefydliadau, hy roedd y Cyngor Sir yn rheoli'r traeth a nhw oedd i benderfynu a oeddent am ei gau a Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn gyfrifol am ddod o hyd i ffynhonnell y broblem. Gallai amrywiaeth eang o bethau achosi'r halogiad bacteria, a chytunodd fod angen gweithio gyda rhanddeiliaid i leihau'r halogiad. Dywedodd y Cadeirydd ei

fod yn gwybod bod y broblem yn achosi pryder yn lleol oherwydd ansawdd gwael y dŵr ymdrochi.

4. Diweddariad ar Menter Newydd a'r Asesiad Dyluniad Generig – Tris Denton (TD) Pennaeth Cyfathrebu, Hitachi Nuclear Energy Europe Ltd.

- Rhoddwyd crynodeb o fanylion y fenter ar y cyd, Menter Newydd, rhwng Bechtel, Hitachi a JGC. Mae gan y fenter ar y cyd swyddfa yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cynnwys partneriaid byd-eang sy'n cynnig profiadau amrywiol. Roedd y profiadau hynny'n cynnwys gweithio ar 180 o safleoedd yn fyd-eang, profiad o ddarparu seilwaith ar gyfer prosiectau enfawr o bob math a darparu 4 ABWR o fewn yr amserlen ac o fewn y gyllideb.
- Roedd Menter Newydd ar ei blwyddyn gyntaf o gyfnod o dair blynedd o Ymgysylltu â Chontractwyr yn Gynnar ar gyfer Horizon ac ar hyn o bryd roedd yn gweithio gyda Horizon i ddangos hyfywedd y prosiect. Roedd disgwyl y byddai union ddull gweithredu'r prosiect yn cael ei ddiwygio wrth i bawb ddod i ddeall mwy a dod yn fwy parod, a byddai'r cynnydd yn cael ei rannu mewn fforymau fel Grŵp Cyswllt y Prosiect. Cafodd y blaenoriaethau cyntaf eu rhestru, hy llunio amserlen a phrisiau, is-gontractau gyda Hitachi-GE, datblygu parodrwydd y gadwyn gyflenwi a sefydlu swyddogaethau Menter Newydd ei hun.
- Amlinellwyd blaenoriaethau'r tymor canol hefyd, hy sefydlu blaenoriaethau ar gyfer 2017 gyda Horizon, gan ddechrau adeiladu ar allbwn yr hyn a oedd wedi cael ei gyflawni hyd yma (gan gynnwys ymwneud â'r gadwyn gyflenwi; gweithlu; amserlen ac ati). Mae'r tranche cyntaf o'r hyn a oedd i'w ddarparu i'r cwsmer (Horizon) wedi cael ei gwblhau'n barod. Wrth i ragor o fanylion am y prosiect gael eu sefydlu, gallai gwaith ddechrau ar sicrhau bod y gweithlu mewn lle, a allai gynnwys chwilio am gynifer o bersonél lleol â phosibl.
- Rhoddwyd diweddariad am y GDA (asesiad dyluniad generig). Roedd hyn yn cael ei wneud gan Hitachi-GE a oedd yn gweithgynhyrchu'r ABWR (adweithydd dŵr berwedig uwch). Roedd cwblhau'r GDA ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn diwedd 2017, ac roedd disgwyl cael y cyflwyniadau olaf tua haf 2017. Byddai'r broses sylwadau yn rhedeg tan 15^{fed} Awst 2017, gydag ymgynghoriad SoDA (Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop/Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cael ei lansio ar 12^{fed} Rhagfyr 2017.

Cwestiynau:

- Gofynnodd y Cadeirydd ble roedd Menter Newydd yn gweld ei hun ddiwedd 2017.
 - Atebodd Tris Denton (TD) eu bod yn disgwyl bod dal wrthi'n darparu'r hyn roedd y cwsmer ei eisiau ganddynt, hy cyflawni gofynion Horizon, a gobeithio y byddent ar ddiwedd ail flwyddyn contract lwyddiannus gyda Horizon.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Menter Newydd mewn sefyllfa i ddweud rhywbeth am eu contractwyr haen 2.
 - Atebodd TD fod Hitachi-GE wedi treulio 3 blynedd yn gweithio gyda chontractwyr haen 2 ar astudiaethau, a bod rhagdybiaethau wedi cael eu llunio

o'r rheini, a bod nifer o'r contractwyr hynny'n dal i weithio gyda Menter Newydd. Y flaenoriaeth oedd cael y cytundeb gwasanaeth angenrheidiol yn ei le a darparu'r tasgau sydd eu hangen yn y tymor byr – a gellid datblygu trefniadau tymor hirach maes o law.

5. Unrhyw fater arall

- Rhoddwyd diweddariad gan **IW** ar ymgynghoriad ynghylch dyluniad yr orsaf bŵer niwclear, a oedd wedi agor y diwrnod blaenorol (12^{fed} Rhagfyr). Roedd rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori ar y gweill yn Wylfa ar gyfer Grŵp Cyswllt y Prosiect yn ogystal â sesiynau galw draw lleol yng Nghemaes a Llangefni. Roedd disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gysylltu ag aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect cyn bo hir gyda gwybodaeth am y digwyddiadau ymgynghori. Gofynnodd y Cadeirydd iddynt roi cymaint â phosibl o rybudd er mwyn i bobl allu bod yn bresennol. Pwysleisiodd **IW** fod yr ymgynghoriad hwn ynghylch dyluniad a thechnoleg yr orsaf bŵer ac nad oedd yn ymwneud â thrwyddedu, ac y byddai ymgynghoriad ynghylch hynny yn dechrau yn nes ymlaen yn 2017.
- Gofynnodd **JJ** am ddiweddariad ynghylch sefyllfa'r National Grid o ran ceblau, gan bwysleisio bod diogelwch yn bwysig dros ben a'i fod yn poeni am gynllun y National Grid i redeg dwy linell o beilonau ochr yn ochr â'i gilydd. Gofynnodd sut y byddai gwytnwch y rhain yn cael ei fesur, er enghraifft petai un yn disgyn i lawr.
 - Atebodd **DH**, gan ddweud bod y mater hwn wedi cael ei astudio ers 2010. Roedd digon o le i beilonau ddisgyn, gan sicrhau na fyddent yn cyffwrdd â'i gilydd na'r llinellau pŵer.
- Roedd **JJ** hefyd yn poeni am ddamweiniau eraill gyda pheilonau, er enghraifft gwrthdrawiadau awyrennau, a gofynnodd beth oedd barn yr arolygiaeth ynghylch hyn.
 - Atebodd **DE** y byddid yn mynd i'r afael â hyn mewn cyfarfod arall oherwydd ei fod yn gwestiwn technegol iawn ac nad oedd arbenigwr ar y mater yn bresennol i ymateb. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cwestiwn gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r cyfarfod.
- Gofynnodd y Cynghorydd John Wyn Griffith (**JWG**) a ydy'r National Grid yn gofyn i Horizon gefnogi eu cynlluniau i adeiladu peilonau ar draws yr ynys.
 - Atebodd **SD** nad oedd hi'n gwybod a ofynnwyd i Horizon ai peidio. Roedd y llinell bŵer yn rhan o gontract cysylltu gyda'r National Grid.
- Ychwanegodd **JWG** fod trigolion Ynys Môn yn gwrthwynebu cael dwy set o beilonau ar draws yr ynys a bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi pleidleisio'r diwrnod blaenorol yn unfrydol yn erbyn y cynigion. Dywedodd y Cynghorydd Griffith fod trigolion yr ynys wedi croesawu Wylfa Newydd i'r ynys a gofynnodd i Horizon gefnogi'r trigolion drwy roi pwysau ar y National Grid i redeg peilonau o dan y ddaear.

- Dywedodd **SD** mai safbwynt Horizon gyda'r National Grid ydy sicrhau bod y trydan yn cael ei gludo oddi ar yr ynys yn ddiogel. Byddai Horizon yn ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y National Grid.
- Dywedodd **GJ** ei fod yn deall ei bod hi'n anodd i **SD** ac i Horizon ddangos ffafriaeth ar y mater hwn, serch hynny dywedodd ynghylch National Grid; nad oeddent wedi gwrandao, er bod nifer o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda nhw. Ychwanegodd fod y sefyllfa yn hollol annerbyniol, a phetai Horizon yn gallu dwyn perswâd arnynt o gwbl, y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.
- Dywedodd Clare Eno (**CE**) ei bod hi'n braf gweld gwenoliaid y môr yn y ffilm a chlywed nad oedd dim drilio yn ystod y tymor bridio. Serch hynny, nid oedd y ffilm yn sôn am bysgod na physgodfeydd.
 - Ymatebodd **DH** gan gadarnhau bod arolygon amrywiol wedi cael eu cynnal, a oedd yn cynnwys pysgod. Roedd camerâu wedi cael eu hanfon i lawr cyn dechrau ar y gwaith ac mae pob arolwg a phob arolwg effaith amgylcheddol posibl wedi cael eu gwneud er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol. Roedd biologydd morol ar y safle ac wrth law hefyd. Cadarnhaodd **DH** fod pysgotwyr wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau a bod y pysgotwyr cimwch wedi parhau i bysgota yn yr ardal. Roedd gwaith monitro agos yn cael ei wneud ac roedd sesiwn galw draw yn Amlwch a Llangefni petai unrhyw un yn dymuno cael gwybod rhagor. Ychwanegodd **IW** ei bod yn rhaid cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwneud y gwaith, a bod y drwydded hon wedi cael ei rhoi a bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ar y protocol.
- Dywedodd Peter Jones (**PJ**) fod TerraQuest wedi bod at unigolyn lleol yn ddiweddar ac wedi gofyn cwestiynau busneslyd ynghylch eiddo'r unigolyn. Gofynnodd Mr Jones pwy oedd wedi comisiynu'r cwmni i wneud y gwaith.
 - Daeth cadarnhad o'r llawr bod y gwaith wedi cael ei gomisiynu gan Adran Prifffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn yng nghyswllt y gwaith statudol a bod hysbysiadau wedi cael eu hanfon at y trigolion i gadarnhau hyn cyn yr ymweliadau. Er bod Horizon yn talu am y gwelliannau i'r A5025, y cyngor sir oedd yn gyfrifol am y gwaith. Byddai Sasha Davies yn cysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn ynghylch pryderon y trigolion.

6. Cloi

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen i bawb a oedd yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 7.04pm.